YSGOL BRYNREFAIL

ENNILLWYR !!!!
CWPAN PÊL DROED CYMRU dan 13

Ar ddydd Sul 15fed Fai 2011 enillodd tîm pêl droed genod dan 13 Gwpan Pêl Droed Cymru trwy guro Ysgol Dyffryn, Port Talbot o 6-2.
Fe chwaraewyd y gêm ar gae Park Hall yng Nghroesoswallt, cartref T.N.S., ac unwaith eto yr oedd criw o rieni a ffrindiau yn bresennol i'w cefnogi. Cafwyd eithaf braw ar ddechrau'r hanner cyntaf oherwydd ar un adeg yr oedd Brynrefail yn colli o 2-1. Ond erbyn hanner amser yr oedd chwarae da genod Brynrefail yn dechrau goresgyn eu gwrthwynebwyr gyda'r tîm yn dechrau chwarae pêl droed da.

Beth bynnag oedd y brath o dafod a gafwyd gan Mr Gareth Davies, eu hyfforddwr, ar hanner amser yn sicr fe weithiodd ac fe welwyd genod Brynrefail ar dân o'r chwiban cyntaf.

Sgoriwyd pedwar gôl yn ddi-ateb yn yr ail hanner trwy Alaw Hughes yn sgorio 'hat trick', Kate Humphreys yn sgorio 2 a Lois Regan yn ychwanegu un ac yr oedd pawb yn gysylltiedig gyda'r tîm ar ben eu digon pan welwyd Lois Regan yn codi'r gwpan.

Rhaid llongyfarch y tîm ar ei llwyddiant a hefyd Mr Gareth Davies sydd yn datblygu'n sydyn i fod y 'Jose Mourinho' Brynrefail.

Genod Brynrefs – da 'de !